

At: Swyddog Cyfrifol CBAC



14 Awst 2020

Annwyl Elaine

Amod Cydnabod Arbennig

Mae Cymwysterau Cymru wedi derbyn Cyfarwyddyd gan y Gweinidog Addysg i weithredu mewn perthynas â chanlyniadau cymwysterau Safon Uwch yr haf hwn. Gellir gweld copi o'r Cyfarwyddyd ar ein [gwefan](#).

Mewn ymateb i'r Cyfarwyddyd a gawsom, ac yn unol ag ef, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC-WJEC wneud newidiadau i'r canlyniadau a gyhoeddir ar gyfer cymwysterau Safon Uwch yng Nghymru yr haf hwn lle mae gradd Safon Uwch dysgwr yn is na'u gradd Uwch Gyfrannol (UG) orau. I'r perwyl hwn rydym yn gosod amod cydnabod arbennig ar CBAC-WJEC a nodir isod.

Daw'r amod cydnabod arbennig i rym ar unwaith a bydd yn parhau mewn grym tan ddyddiad a bennir gan Gymwysterau Cymru. Mae'r amod arbennig yn gymwys i'r holl ganlyniadau a gyhoeddir gan CBAC-WJEC ar gyfer cymwysterau Safon Uwch yr haf hwn, ac sydd o fewn cwmpas ein [Fframwaith Rheoleiddio Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol - Covid-19. Amodau a Gofynion](#).

Yn unol ag Atodlen 3, paragraff 4 Deddf Cymwysterau Cymru 2015, mae Cymwysterau Cymru yn cyflwyno'r amod cydnabod arbennig canlynol.

SPCR2

SPCR2.1 Rhaid i CBAC-WJEC gyhoeddi gradd cymhwyster Safon Uwch ddiwygiedig i Ddysgwyr a dderbyniwyd canlyniadau ar 13 Awst 2020 lle mae'r radd Safon Uwch a ddyfarnwyd i Ddysgwr yn is na gradd lefel UG orau'r Dysgwr ar gyfer y cymhwyster hwnnw.

- SPCR2.2 At ddibenion Amod SPCR2.1, gallai'r Dysgwr fod wedi wedi derbyn y radd lefel UG ar gyfer y cymhwyster hwnnw mewn cyfres arholiad flaenorol neu yn haf 2020.
- SPCR2.3 Rhaid i CBAC-WJEC adnabod y Dysgwyr hynny yr effeithir arnynt a rhoi gradd(au) cymhwyster Safon Uwch diwygiedig yn brydlon i bob Dysgwr o'r fath.
- SPCR2.4 Pan roddir gradd ddiwygiedig i Ddysgwr yn unol ag Amod SPCR2.3, rhaid i hon fod yr un radd a ddyfernir i'r Dysgwr ar lefel UG.
- SPCR2.5 Rhaid i CBAC-WJEC ddarparu ar gyfer apêl, ar ran y Dysgwr gan y Ganolfan, ar y sail nad yw CBAC-WJEC wedi cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Amod SPCR2.1.
- SPCR2.6 Bydd yr Amod Arbennig hwn yn berthnasol i bob cymhwyster TAG sydd o fewn cwmpas y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol - Amodau a Gofynion Covid-19.
- SPCR2.7 I'r graddau bod unrhyw anghysondeb rhwng –
- (a) gofyniad a gynhwysir fel rhan o'r Amod Arbennig hwn;
 - (b) Amod GQCov;
 - (c) gofyniad Amod Cydnabod Safonol, a
 - (d) gofyniad Amod Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG
- fel na allai CBAC-WJEC gydymffurfio â'r ddau ofyniad o'r fath, rhaid i CBAC-WJEC gydymffurfio â gofyniad yr Amod Arbennig ac nid oes rheidrwydd arno i gydymffurfio â gofyniad yr Amod arall.

Cysylltwch â mi os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,



Philip Blaker
Prif Weithredwr